Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | **01.11.2024** |
| **Pwnc / Subject:** | **Strategaeth Ymarfer Amlasiantaethol Ddrafft** |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Nod y Strategaeth Genedlaethol Ymarfer Amlasiantaethol (cyfeirir ati o hyn ymlaen fel y Strategaeth) i blant yw gwella cymorth ar gyfer plant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau, gyda ffocws ar gadw teuluoedd gyda'i gilydd ac ymestyn gwasanaethau cymorth cynnar.

Rydym yn cytuno bod gan y cynigion allweddol a amlinellir yn y Strategaeth ddrafft y potensial i arwain at ddeilliannau gwell ar gyfer plant a hyrwyddo dull amlasiantaethol sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf, yn seiliedig ar berthnasoedd, gan wneud y defnydd gorau o fodelau arfer dda presennol. Bydd bwriad y rhaglen i symud oddi wrth fentrau tymor byr i ddatblygu ac ymgorffori arferion yn seiliedig ar dystiolaeth mewn gwasanaethau a gynigir yn genedlaethol yn cryfhau'r gwaith yn y maes hwn ymhellach.

Rydym yn cytuno y dylai prosesau ar gyfer mesur effaith gael eu cyd-lunio â rhanddeiliaid a chefnogi ffurfio grŵp goruchwylio o fewn Llywodraeth Cymru. Rydym yn cytuno y dylai'r grŵp hwn ganolbwyntio ar ddeilliannau fel ansawdd gofal, mynediad at wasanaethau, a lleihau anghydraddoldeb, gydag ymglymiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Byddem yn gwerthfawrogi mwy o drafodaethau yn gysylltiedig â threfniadau arolygu ar y cyd wrth i'r Strategaeth ddatblygu, i adeiladu ar yr Arolygiadau Ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant, a'u cryfhau.

Rydym yn cefnogi'r gwaith helaeth a wnaed eisoes i sicrhau bod egwyddorion y fframwaith yn adlewyrchu consensws a gweledigaeth ar y cyd. Rydym o'r farn y gallai datblygu a gweithredu fframwaith cenedlaethol hyrwyddo dealltwriaeth ar y cyd o ddisgwyliadau proffesiynol a chyhoeddus, ac y gellid cyflawni hyn trwy safonau cenedlaethol tra diffiniedig.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**CWESTIWN 1.**

**Pa wahaniaeth all y Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol ei wneud i blant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'u cymunedau?**

Gallai'r fframwaith wella'r cymorth a ddarperir i deuluoedd, er enghraifft trwy gynnig cenedlaethol, amlasiantaethol, cyffredinol a thargedig sy'n canolbwyntio'n effeithiol ar gadw teuluoedd gyda'i gilydd, a phlant yn aros yn eu cymunedau. Mae'n ddefnyddiol cyfeirio at y gwaith tîm buddiol rhwng gweithwyr proffesiynol, er enghraifft rhwng gweithwyr cymdeithasol, bydwragedd a swyddogion yr heddlu i sicrhau bod baban newydd-anedig yn cael ei amddiffyn trwy un broses unedig. Bydd rôl yr unigolyn cyswllt a enwebwyd yn hanfodol wrth sicrhau sut bydd hyn yn cael ei ddiffinio a'i gyflawni. Bydd yn bwysig i'r holl wasanaethau a'r cyhoedd ddeall y camau a fydd yn cael eu cymryd yn yr amgylchiadau hyn.

Rydym yn cefnogi'r dull hawliau plentyn sy'n treiddio trwy'r Strategaeth hon. I sicrhau bod y dull hwn sy'n seiliedig ar hawliau ar flaen y gad yn y maes hwn, gellid cryfhau hyn ymhellach trwy weithredu Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Rydym yn cefnogi'r nod i gryfhau'r cynnig 'ar ffiniau gofal', oherwydd gallai hyn gynorthwyo plant a phobl ifanc i aros gyda'u teuluoedd ac ailfuddsoddi arian mewn

cymorth i deuluoedd. Hefyd, gallai gefnogi diwygio cyfiawnder teuluol a chryfhau'r cysylltiad â gwasanaethau cymorth cynnar.

Rydym o'r farn y bydd camau i wella'r system ofal yn cael eu croesawu gan wasanaethau a'r cyhoedd ledled Cymru. Rydym yn cytuno â'r cynigion i wella statws llais y plentyn, cryfhau'r system rhianta corfforaethol, cynyddu lleoliadau yn agosach at y cartref a datblygu system ofal nid-er-elw. Hefyd, bydd gwella cysondeb gwasanaethau ledled Cymru ac ansawdd arfer a gwneud penderfyniadau yn gamau pwysig, yn ogystal â chreu mwy o eirioli i blant, rhieni a gofalwyr sy'n ymwneud â'r broses.

Rydym yn gwerthfawrogi'r heriau o ran ymestyn gwasanaethau ar gyfer plant ag anghenion cymhleth ac yn credu y byddai rhieni a gofalwyr yn croesawu gwelliannau mewn comisiynu amlasiantaethol, ariannu cymorth a datblygu ystod fwy o ddarpariaeth.

**CWESTIWN 2.**

**Pa newidiadau hoffech chi eu gweld i'r drafft, yn cynnwys yr angen am safonau hirach gyda mwy o esboniad a chyfeiriadau heb golli effaith?**

Credwn y bydd gwasanaethau a'r cyhoedd ehangach yn croesawu'r ffaith fod y Strategaeth yn cael ei hategu gan gred yn hawliau plant, cyfiawnder cymdeithasol a phwysigrwydd cyflwyno gwasanaethau lleol. Fodd bynnag, gallai fod yn fuddiol cryfhau'r eglurder ynglŷn â phwysigrwydd cyflwyno gwasanaethau lleol, yn enwedig sut bydd hyn yn gweithio yn ymarferol, fel bod y cyhoedd ehangach yn deall yn glir sut i fanteisio ar gymorth.

Rydym yn ystyried y bydd gwasanaethau a'r cyhoedd ledled Cymru yn croesawu'r safonau cryno, uniongyrchol a chlir. Caiff y negeseuon clir a chryno sydd wedi'u cynnwys yn naratif pob un o'r pum safon eu hatgyfnerthu ymhellach yn y datganiadau amlasiantaethol'rhaid gwneud'. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod o'r farn y gallai plant a phobl ifanc ac oedolion ag anghenion cymhleth elwa ar fersiwn fwy hygyrch o'r safonau hefyd, sy'n cynnwys elfennau gweledol defnyddiol ac yn ystyried dull cyfathrebu cyflawn. Credwn y byddai'r fersiwn hygyrch hon yn ychwanegiad buddiol at y deunyddiau arweiniad ychwanegol cynlluniedig.

**CWESTIWN 3.**

**Sut gellir cryfhau arfer amlasiantaethol sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf, yn seiliedig ar berthnasoedd?**

Rydym yn nodi'r egwyddor allweddol y bydd y fframwaith yn gydnaws â modelau arfer bresennol a ddefnyddir ledled Cymru ar hyn o bryd. Er enghraifft, Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Gall adeiladu ar yr arferion sefydledig hyn gefnogi model sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf, ac yn seiliedig ar berthnasoedd, heb orfodi newidiadau diangen i gyrff lleol neu ranbarthol sydd â'u modelau arfer eu hunain.

Yn ein profiad ni, gallai gwella gweithio amlasiantaethol ar draws gwasanaethau mewn llywodraeth leol, byrddau rhanbarthol a'r gwasanaeth iechyd gryfhau'r arfer sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf, yn seiliedig ar berthnasoedd, a sicrhau bod cydweithio llwyddiannus a phwrpasol ym mhob cam o daith y plentyn neu'r person ifanc yng Nghymru. Mae gan y gweithio amlasiantaethol hwn y potensial i gael ei gryfhau ymhellach trwy asesiadau ac ymyriadau o ansawdd uchel a gyflwynir gan weithlu gwybodus sy'n rhoi'r plentyn neu'r person ifanc yn ganolog i'r holl benderfyniadau a wneir.

**CWESTIWN 4.**

**Sut gellir cefnogi rhoi'r Safonau ar waith?**

Rydym yn ymwybodol bod llawer o fecanweithiau a systemau yn bodoli eisoes ar draws llywodraeth leol a allai gefnogi rhoi'r safonau ar waith. Mae enghreifftiau da yn cynnwys y byrddau partneriaeth a diogelu rhanbarthol. Ceir llawer o enghreifftiau defnyddiol o awdurdodau lleol yn cydweithio'n llwyddiannus â phartneriaid allweddol i roi newid sylweddol ar waith a sicrhau'r deilliannau gorau posibl ar gyfer plant a phobl ifanc, er enghraifft trwy strwythurau trawsnewid a llywodraethu, gweithgorau a grwpiau ffocws rhanddeiliaid. Rydym wedi gweld effaith gadarnhaol ar wasanaethau amlasiantaethol sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf, yn seiliedig ar berthnasoedd, lle mae gwasanaethau wedi'u cydleoli mewn hybiau.

Rydym yn gwerthfawrogi'r cynllun ar gyfer deunyddiau arweiniad a hyfforddi ychwanegol, yn cynnwys set o nodiadau arfer a fideos ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar gyfer gwasanaethau plant ac asiantaethau eraill. Rydym yn gwerthfawrogi'r ychwanegiad hwn i gefnogi'r gwaith ar blant a phobl ifanc coll a rhannu gwybodaeth. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi y bydd dull graddol y Strategaeth hon yn fuddiol i ymarferwyr i'w galluogi i addasu yn unol â'r ffyrdd newydd hyn o weithio, a'u harddel yn y pen draw, felly hefyd creu'r deunyddiau dysgu i gefnogi arfer amlasiantaethol.

Rydym yn nodi'r cyfeiriad at yr angen am reoli newid tra dealledig a chydlynus i sicrhau bod y Safonau Cenedlaethol yn cael eu gweithredu'n effeithiol gan fwy nag un asiantaeth ar yr un pryd. Fodd bynnag, er bod y ddogfen ddrafft gyntaf wedi nodi bod 'oedi, rhestrau aros ac amser proffesiynol annigonol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr holl blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn senario tebygol am flynyddoedd i ddod, yn enwedig yn sgil y galw cynyddol', ni chyfeirir at hyn yn y Strategaeth newydd. Rydym yn parhau i bryderu, fel y cyfeiriwyd yn flaenorol, bod llawer o weithwyr proffesiynol ym maes gwasanaethau plant yn gweithio mwy o oriau na'u tâl a bod angen i weithwyr gael eu hamddiffyn rhag rhai o ganlyniadau hysbys gorweithio hefyd, fel straen cynyddol a thrawma eilaidd. Byddem yn gwerthfawrogi pe bai'r agweddau hyn yn cael eu hystyried o fewn y dilyniant o reoli newid cadarn sydd wedi'i gynllunio'n ofalus.

Byddem yn gwerthfawrogi cyfeiriad mwy eglur at yr arweinyddiaeth, neu gytundeb cydweithredol cynhwysfawr rhwng partneriaid, sydd ei angen i roi'r dull newydd hwn ar waith. Mae gan hyn y potensial i gryfhau'r llinellau atebolrwydd a sicrhau cyfrifoldeb eglur am fynd â'r Strategaeth ymlaen.

**CWESTIWN 5.**

**Pa fertigau a phrosesau y dylid eu datblygu i fesur effaith a deilliannau'r Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd?**

Rydym yn gwerthfawrogi y bydd y metrigau'n cael eu mesur trwy fecanweithiau presennol a'u cysylltu â'r deilliannau allweddol a nodwyd. Bydd yn bwysig i unrhyw fesurau a gwerthusiadau o'r fframwaith gael eu cyd-greu â phlant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai sydd wedi profi gofal. Gallai hyn gynnwys edrych ar ansawdd y gofal, mynediad at wasanaethau, ansawdd y cymorth, deilliannau asesu ac ymyriadau a lleihau anghydraddoldeb, er enghraifft. Gellid defnyddio deilliannau'r mesurau hyn i lywio, er enghraifft cyllid a defnydd o adnoddau, dylanwadu ar gomisiynu, cefnogi gwaith gwella ansawdd, helpu â gwaith sicrhau ansawdd a monitro a ffurfio gwasanaethau yn y dyfodol,.